Gwefanau Rhwydweithio Cymdeithasol

Annwyl Riant/ Gwarcheidwad,

Yn dilyn cynnydd yn nefnydd gwefannau rhwydweithio cymdeithasol yn y blynyddoedd diwethaf (ee Facebook, Instagram, Twitter ayyb), hoffai'r ysgol eich atgoffa fel rhaint/ gwarcheidwad ystyried y pwyntiau canlynol ynglyn â'ch defnydd o'r gwefanau hyn.

Yn gyntaf oll, hoffwn eich atgoffa nad yw'r gwefanau hyn yn fan priodol i fynegi sylwadau amhriodol am yr ysgol, athrawon, staff neu ddigyblion eraill. Gall sylwadau neu honiadau o'r fath gael eu hystyried yn enllibus ac arwain at gamau cyfreithiol yn cael eu cymryd gan adran gyfreithiol y Cyngor Sir. Fel rydych yn ymwybodol, mae sylwadau sy'n cael eu gwneud ar wefan o'r fath yn agored i lawer o ddefnyddwyr y wefan a'r wê yn gyffredinol, felly gofynnwn i chi fod yn ofalus o'r hyn rydych yn ei gyhoeddi.

Hoffwn hefyd bwysleisio, petai unrhyw fater neu broblem yn gysylltiedig â'r ysgol yn codi, yna mae gweithdrefn ffurfiol yn agored i chwi drafod rhain yn uniongyrchol â'r ysgol. Yn ogystal, os oes gennych bryderon ynglyn ag unrhyw sylwadau neu honiadau am yr ysgol neu eich plentyn fel disgybl ar y safloedd hyn, yna peidiwch ag oedi i drafod rhain gyda'r ysgol ychwaith. Bydd pob mater yn cael ei drin yn gyfrinachol.

Yn gywir,

Rhys Roberts
Pennaeth Mewn Gofal